**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**6/2/24**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Huw P Roberts (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Dewi Wyn Jones, Rhodri Jones, Alwyn M Roberts,

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**Ymddiheuriadau:** Llinos Edwards, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones

**3006 Croesawodd** y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyfeiriodd at brysurdeb ymarferion drama yn y gymuned, a dymunodd y gorau i'r Ŵyl Ddrama.

**3007 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd.

**3008 Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**3009 Cofnodion** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 9/1/24.

**3010 Materion y Clerc:**

1. Gwasanaeth Bws T3: Yn dilyn ymateb siomedig i'r datrysiad a gynigwyd gan y Cyngor ar gyfer Llanuwchllyn i newidiadau yn yr amserlen bws, **cytunwyd i** wahodd Lee Robinson a Gethin George a Mabon ap Gwynfor i gyfarfod rhai o'r Cynghorwyr yn ystod y dydd. Mae angen herio'r honiad y bydd troi mewn i Llanuwchllyn yn cymryd "Dros 4 munud" /"5 munud", gan fod bysiau yn y gorffennol wedi gallu ymweld mewn 3.45 munud. Cytunwyd y byddai'n dda cael rhai o aelodau'r cyhoedd sydd wedi eu heffeithio wrth law, yng nghyd a sylwadau o du'r garej. Mae'r meddylfryd presennol o wasanaeth "metro" yng ngogledd Cymru yn gwrth-ddweud polisïau eraill Llywodraeth Cymru yn ymwneud a gwasanaethau i'r henoed, cefnogi'r anabl, lleihau ôl-troed carbon a chefnogi cymunedau cefn gwlad.
2. TG yn y Neuadd: derbyniwyd gwybodaeth y bu anhawster cysylltu gyda MAD Môn ond y bydd Pwyllgor y Neuadd y parhau i ymdrechu i gael y cwmni i ymateb. Deellir nad oedd rhai cydrannau wedi cyrraedd mewn pryd i gyflawni'r gwaith.
3. 3004iii Triathlon: derbyniwyd yn ddiolchgar y cynnig gan y trefnwyr i ymweld, a **chytunwyd i** ofyn iddynt ymweld ar brynhawn eu cyfarfod yn Y Bala er mwyn i gynrychiolwyr o'r Cyngor dynnu eu sylw at y mannau sydd angen sylw stiwardio ac arwyddo cadarn yn yr ardal. Awgrymwyd mai Cynghorwyr sydd wedi gweithredu fel stiwardiaid yn y gorffennol fyddai'r pobl a allai cyfarfod gyda'r trefnwyr.
4. 3004iv Cyfarfod y Clerc a Huw Antur gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri 16/1/24 – rhannwyd Cofnodion y cyfarfod. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Swyddogion o ymgyrchoedd a phrosiectau sydd ar y gweill gan Parc Cenedlaethol Eryri, a manylion grantiau sydd ar gael. (*Trosglwyddwyd yr wybodaeth am grantiau i sylw Gŵyl Llanuwchllyn*.) Dangosodd y Cynghorwyr ddiddordeb yn yr arsyllfa symudol ac yn y

syniad o greu ardal dywyll yn y gymuned. Gallai ardal dywyll fod yn ddeniadol i ymwelwyr hefyd.

**3011 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd - dywedodd fod lloches bws Y Lôn wedi ei glanhau a'r ffos wedi ei chlirio, ond bod Swyddogion Cyngor Gwynedd a Cefnffyrdd (NMWTRA) yn edrych ymhellach i ddiffygion y beipen sy'n cario'r dwr o dan y ffordd.

Mae'r broses o greu llwybr diogel i'r ysgol yn Heol yr Eglwys wedi cychwyn.

Diolchodd y Cynghorydd i Merfyn Morris (NMWTRA) am ei gynllun i wella diogelwch ar yr A494 yn ardaloedd Stryd y Prys a Stryd Dwr, ond bydd yn parhau i bwyso am linellau dwbl yn ychwanegol i'r mesurau yn y cynllun.

**Cytunodd** y Cyngor i'r cynllun a anfonwyd gan Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Cyngor Gwynedd, sef "Cynllun Gwaharddau Parcio Arfaethedig – B4403 wrth Cyffordd Tŷ'n Ddôl, Llanuwchllyn".

Tynnodd y Cynghorwyr sylw at yr angen i ymestyn y llinellau melyn ar gornel Cae Gwalia, yr angen i gyflawni'r addewid o roi llinellau melyn ar gornel Maes y Pandy (yr ochr agosaf at Ty'n Ddôl), a'r angen cyffredinol i ail baentio llinellau melyn y pentref sydd bron yn anweladwy erbyn hyn mewn ambell i fan.

Cafwyd trafodaeth ar bosibiliadau ymestyn yr ardal wrth y lloches bws ar gyfer parcio. Cyngor Gwynedd sydd berchen at gefn y lloches, ond hyd yn oed o'i ddatblygu ni fyddai llawer o gapasiti yno. **Cytunwyd** i ofyn i Swyddog Datblygu Cymunedau Cyngor Gwynedd i chwilio am grant i wneud arolwg o barcio yn y pentref er mwyn cael datrysiadau synhwyrol.

Mae Adra wedi torri'r llystyfiant ar lleiniau gweigion Maes y pandy.

**3012 Is-bwyllgorau**

1. Grwp Datblygu: Rhannwyd Cofnodion y cyfarfod. Ers y cyfarfod derbyniwyd gwybodaeth fod Parc Cenedlaethol Eryri yn oedi'r gwaith ar adolygu'r Cynllun Datblygu oherwydd eu blaenoriaeth presennol yw ystyried Erthygl 4 Llywodraeth Cymru, sef y cynnig i newid categori defnydd annedd os ydyw yn newid i fod yn dŷ haf neu fusnes.

   Dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans fod Swyddogion yn brysur ond ei fod yn disgwyl ymateb positif i'r dymuniad lleol i Elusen Mauice Vaughan berchnogi tai yn y pentref. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd eisoes yn prynu rhai tai haf er mwyn i Adra eu rheoli; gallai'r Elusen cael ei ystyried mewn modd tebyg o bosib.

   Mae'r Prif Weinidog Mark Drakeford yn bwriadu gwneud taith trwy Gymru ac awgrymwyd Llanuwchllyn fel un ardal iddo ymweld fel ardal sy'n gweithio yn y maes tai.

Adroddwyd o gyfarfod Menter Gymunedol Llanuwchllyn gyda Swyddog Treftadaeth Parc Cenedlaethol Eryri. Roedd yn gefnogol i ddatblygiad a fyddai'n gwarchod yr adeilad a'r fynwent. Penodwyd swyddog cynllunio yn ddiweddar, Ann Morris. **Cytunodd** y Cyngor mewn egwyddor o holi beth yw'r posibiliadau a'r cyfyngiadau parthed newidiadau i'r Eglwys. Mae grantiau ar gael ar gyfer adeiladau mewn perygl.

2. Mynwentydd: Diolchwyd i Alwyn E Jones am drwsio giât y porth i'r fynwent newydd. Nid yw Swyddog y Fynwent wedi gallu trafod gwaith symud cyrbau gyda'r Brodyr Evans hyd yn hyn.

3. Bioamrywiaeth: Os na ddaw enwau i law, cytunwyd i roi neges ar Facebook y gymuned i holi os oes diddordeb mewn garddio'r rhan o dir wrth ddod mewn i'r pentref.

4. Nadolig: mae rhai anfonebau eto i ddod i law.

5. Asedau: mae Beryl Hughes Griffiths wedi ceisio cysylltu ag adeiladwr parthed y ffenest blastig sydd wedi torri yn lloches bws Ty'n Ddôl; cynigodd Alwyn E Jones i geisio holi ar ran y Cyngor.

6. Cyllid: rhannwyd manylion diweddar i bob Cynghorydd.

**3013 Ystyried Materion Ariannol:**

**1.** Derbyniadau ac anfonebau'r mis: **cytunwyd** i'r taliadau Cytundebau.
**2.** Bydd ystyriaeth i geisiadau am nawdd cymunedol yng nghyfarfod mis Mawrth.

**3014 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr am apwyntiad aelod arall o staff i weithio ar yr ochr lles.

**3015 Cynllunio:** Ystyriwyd ceisiadau:

1. NP5/71/53D Ty'n Llechwedd – manylion diwygiedig 17/1/24. **Cytunwyd** i anfon eto gan ddweud fod y Cyngor yn glynu at yr hyn a gytunwyd arno yng nghyfarfod 3ydd Hydref 2023, Cofnod 2960 (*ac a gadarnhawyd ers hynny yng nghyfarfod Tachwedd 2023 ac eto yng nghyfarfod Rhagfyr 2023*) sef GWRTHWYNEBU'R cais.
2. Cadarnhawyd cymeradwyaeth Cynghorwyr (trwy e-bost) i gais NP5/71/AD29B- Caniatâd Hysbysebion i osod panel gwybodaeth am Daith Mari Jones, Maes Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Llanuwchllyn

**3016 Gohebiaeth:**

1. Parc Cenedlaethol Eryri – Prosiect coed ywen. Cytunodd Rhodri Jones i drafod y posibilrwydd o blannu coed yw yn nyrs y fynwent pan y bydd yn trafod materion natur gyda Rhys Owen ar 7/2/24. **Cynigwyd** hefyd ardal y Nyrs a'r ffens orllewinol ar gyfer plannu coed yw. Nid yw'n bosib cynnig mynwent yr Eglwys ar hyn o bryd.
2. Parc Cenedlaethol Eryri – cynnig i osod bwrdd picnic ar Lwybr Cei. Roedd y Cynghorwyr yn ddiolchgar iawn am y cynnig ond yn pryderu a fyddai bwrdd picnic yn denu sbwriel, ac – o ddewis – roeddent yn ffafrio mainc yn hytrach na bwrdd picnic,

os oes un ar gael. Byddai mainc yn denu llai o lanast, yn arbennig gan fod defnydd helaeth o'r llwybr gan bobl leol ac ymwelwyr. Byddai'n anodd gosod bin ysbwriel yno gan fod y llecyn cryn bellter o'r ffordd.
Diolchwyd yn fawr am glirio'r gangen a oedd wedi disgyn ar draws y llwybr yn ddiweddar; holwyd cyfrifoldeb pwy ydyw trwsio'r ffens a ddifrodwyd gan y gangen.

3. Cyngor Gwynedd - Cynllun Gwaharddau Parcio Arfaethedig – B4403 wrth Cyffordd Tŷ'n Ddôl, Llanuwchllyn – **Cymeradwywyd.**
4. Taith y Fenter Iaith – bydd gan y Cyngor gynrychiolaeth yn y digwyddiad (Canolfan Henblas, 21/2/24, 7.00pm)
5. Enwebiadau ar gyfer tocyn i Arddwest Plas Buckingham: nodwyd y gwahoddiad i geisio am le.
6. Un Llais Cymru a Chynllunio Cymru – nodwyd digwyddiad CYNLLUNIO (Cenedlaethau'r Dyfodol) 7/3/24 10.00- 2.00pm dros y we

**3017 Materion lleol y Cynghorwyr:** Derbyniwyd gwybodaeth fod cloch yr Eglwys wedi symud yn y gwyntoedd cryfion diweddar; bydd Alwyn E Jones yn cyd-gordio parthed tynnu'r gloch er mwyn diogelwch.

**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 5/3/2024 yn y Neuadd Bentref.

Arwyddwyd……………………………………(Cadeirydd) ____/____/______………………………………(Clerc)